# Egwyddorion Cenedlaetholdeb.



Y Frwydr dros Urddas Dyn yng Nghymru.

**Dr. R. Tudur Jones.**

Is-Lywydd, Plaid Cymru.

Pris — Swllt

Traddodwyd sylwedd y pamffled hwn fel dau anerchiad yn Ysgolion Haf Plaid Cymru, y naill ym Mhorthmadog yn 1955 gyda'r teitl *Dyn a'r Wladwriaeth* a'r llall yn Llangefni yn 1959 gyda'r teitl *Egwyddorion Cenedlaetholdeb*

COLEG BALA-BANGOR,
BANGOR.
*Awst*, 1959.



# Egwyddorion Cenedlaetholdeb

Magodd y gair 'cenedlaetholdeb' gymaint o ystyron erbyn hyn fel bod pen dyn yn troi wrth geisio eu datglymu oddi wrth ei gilydd.

Ni all rhai glywed y gair heb daflu eu hetiau i'r awyr ynghanol bonllefau o gymeradwyaeth. Ni all eraill ei glywed heb ddechrau ewynnu poer. I'r naill, cenedlaetholdeb yw ysbrydiaeth pob mawredd ; i'r lleill nid ydyw namyn mwg uffern.

Aeth yn air i ddisgrifio pob math o fudiad. Rhyfedd y gwahanol fathau o bobl a alwyd yn genedlaetholwyr yn ystod y chwarter canrif diwethaf. Ffasgiaid Ellmynaidd, Comiwnyddion Algeria, ffermwyr De Affrig, cefnogwyr Makarios yng Nghupros a Franco yn Sbaen, noddwyr y Mau-Mau yn Kenya a Phlaid Cymru—fe'u bedyddiwyd fel ei gilydd ganddynt hwy eu hunain neu gan eu beirniaid yn 'genedlaetholwyr.' Ac eto, fe geir pobl sy'n nabod cenedlaetholwyr o hirbell na sylweddolant eu bod hwy eu hunain yn dioddef oddi wrth yr un clwyf. Enghreifftiau o'r dewiniaid hyn yw Toriaid Seisnig a Sosialwyr Cymreig.

## LLOEGR

Y mae hyn yn neilltuol ddoniol pan ystyriwch Loegr. Rhaid cydnabod bod cenedlaetholdeb Seisnig yn deimlad cryf—bron cyn gryfed â chenedlaetholdeb Rwsia ! Ond beth yn union yw 'cenedlaetholdeb Seisnig' ? Beth yw ei nodweddion a phwy a roddodd y mynegiant gorau iddo ? Ai barddoniaeth liwgar Shakespeare ynteu ebychiadau Houston Stewart Chamberlain ? Ai'r teimlad hwnnw sy'n gorfodi Saeson i gredu nad oes wlad hafal i'w gwlad hwy yw 'cenedlaetholdeb' ? Ynteu'r nwyd i lywodraethu gwledydd eraill yw'r gwir 'genedlaetholdeb Seisnig' ? At bwy y trown am arweiniad—at Rudyard Kipling ynteu at Rupert Brooke ? Pa ateb bynnag a rown ni i'r cwestiynau hyn ni byddem fawr ar ein helw pe gofynnem i Saeson ein helpu oherwydd y maent hwy'n adweithio'n genedlaethol heb yn wybod iddynt eu hunain yn union fel y maent yn ddiarwybod iddynt eu hunain yn siarad rhyddiaith.

Un engrhaifft ddigrif iawn o hyn oedd araith gan Mr. Henry Brooke yn ddiweddar. Anerchai Mr. Brooke Geidwadwyr canolbarth Cymru yn Y Trallwm a gresynai fod cenedlaetholwyr Cymru'n bobl mor anfoesgar. Efallai eu bod yn awyddus i amddiffyn eu hetifeddiaeth, meddai Mr. Brooke, ond o leiaf gallant fod yn wŷr bonheddig wrth wneud hynny. Y peth digrif yw hyn ; bymtheng mlynedd a mwy yn ôl yr oedd Mr. Brooke a'i gydwladwyr yn amddiffyn eu treftadaeth Seisnig trwy falurio Hamburg a dinasoedd cyffelyb yn chwilfriw. Go brin y gellid galw'r ymddygiad hwnnw'n arbennig o foesgar. Ond dyna fo, un o neilltuolion y byd yr ydym yn byw ynddo yw fod cymaint o bobl digon deallus yn llwyr gredu y gall dynion duon a dynion melynion a Gwyddyl a Chymru gael eu rhidyllio â 'chenedlaetholdeb' ond Mr. Henry Brooke a'i dylwyth byth !

## CENEDLAETHOLWYR SEISNIG CYMREIG

O'r gwahanol dylwythau o genedlaetholwyr Seisnig, un o'r rhai mwyaf diddorol i ni yw'r un a fegir yng Nghymru. Gan fod y tylwyth hwn gyda ni ers cenedlaethau rhoddasom enw arno. Dyma Dic-Siọn-Dafydd. Y mae'n ffynnu o hyd—ond newidiodd ei ddillad droeon yn ystod y ganrif hon. Y mae nodweddion y tylwyth hwn yn hysbys ddigon. Honnant eu bod yn rhyng-genedlaetholwyr pybyr ; y maent yn gystal Cymry â neb ; soniant byth a hefyd am 'Brydain' pan olygant Lloegr ; y maent yn selog i'w ryfeddu tros faner y ddraig goch a stampiau post Cymreig, a thros y Pwyllgor Diogelu Harddwch, y Teulu Brenhinol ac America. A llwyddasant i asio'r gwahanol ddiddordebau yma ag ymateb gwleidyddol sy'n union yr un fath ag ymateb cenedlaetholwr o Sais a addysgwyd yn Harrow.

## BRWYDR WIRIONEDDOL

Y mae ein tasg yn symlach o dipyn yn awr. Bellach dylai fod yn eglur fod y fath beth i'w gael â chenedlaetholdeb Seisnig a bod hwnnw i'w gael mewn gwisg Gymreig yn ogystal ag mewn gwisg draddodiadol Seisnig. Mwy na hynny, gwelsom fod y gair 'cenedlaetholdeb' yn cynnwys llawer o bethau tra gwahanol i'w gilydd. Bydd hyn yn gymorth inni sylweddoli nad gwendid sy'n taro Celtiaid yn unig (fel canu penillion neu'r Orsedd) yw cenedlaetholdeb. Yn hytrach y mae'n allu pwerus y gellir ei anwybyddu ond na ellir ei ddileu.

Y gwahaniaeth rhwng Lloegr a Chymru yw fod Saeson yn cymryd eu cenedlaetholdeb yn ganiataol. Fel arfer nid wyf yn



ymwybodol fy mod yn berchen bodiau traed, ond pan sethrir hwy nid wyf yn ymwybodol o fawr ddim byd arall. Y mae'r un peth yn wir am genedl. Er gwaethaf llawer o siarad gwag, nid yw cenhedloedd mawr fel Rwsia a'r Taleithiau Unedig a Lloegr mewn unrhyw berygl o golli eu nodweddion cenedlaethol. Nid oes angen iddynt feddwl fawr am y peth. Ond bygythir ein nodweddion cenedlaethol ni. Soniwn lawer am genedlaetholdeb yn union oherwydd bod perygl gwirioneddol i'n cenedl ni ddiflannu fel cymdeithas o bobl gyda'i nodweddion gwahaniaethol. Nid yw ein hargyfwng ni yn boen ingol i Saeson; ni allwn ddisgwyl iddynt hwy gydymdeimlo ar raddfa fawr â'n dyheadau. Iddynt problem fach ddigon academig—fel diogelu castell Caernarfon —yw dyfodol ein cenedl. Ac eto wrth geisio sicrhau dyfodol i'n cenedl ni fe gredwn ein bod yn amddiffyn egwyddorion o bwys sylfaenol i fywyd dynion ar y ddaear. A chredwn y dylai'r egwyddorion hynny apelio at bobl ddeallus pa un bynnag a ydynt yn aelodau o genhedloedd bychain ai peidio.

Nid oes a fynnwyf yn y pamffled hwn â gwahanol ystyron y gair 'cenedlaetholdeb.' Ni bydd yn rhan o'm hamcan i holi a yw polisiau Plaid Genedlaethol De Affrig neu Blaid Sosialaidd—Genedlaethol Adolf Hitler yn genedlaetholdeb mewn unrhyw ystyr gall i'r gair. Nid wyf chwaith am holi beth yw nodweddion cenedlaetholdeb yn Togoland neu India. Dilynaf lwybr byrrach a holi beth yw nodweddion cenedlaetholdeb Plaid Cymru a cheisio egluro rhai o brif nodweddion ei brwydr hi dros barhad y genedl Gymreig. Gallaf wedyn adael i'r darllenydd benderfynu i ba fudiadau mewn gwledydd eraill y mae'r mudiad cenedlaethol Cymreig yn perthyn agosaf.

## TYNGED PERSONAU

Gellir crynhoi egwyddor sylfaenol ein brwydr i un frawddeg.

**Y mae a wnelom uwchlaw popeth arall â thynged personau dynol yng Nghymru.**

Dyma sy'n rhoi angerdd i'n brwydr. Dyma sy'n ein cysylltu â llu o fudiadau eraill ar hyd a lled y byd.

Ymhob rhan o'r blaned hon y mae'r gwâr a'r anwar yn ymladd am enaid dyn a'n cred ostyngedig ni yw ein bod ninnau yng nghanol y frwydr honno ar y ffrynt Cymreig. Sylweddolwn na allwn ymladd y frwydr i gyd gan mor eang ydyw. Ni all plaid

wleidyddol gyffwrdd ond ag ychydig agweddau. Brwydr grefyddol yw hi yn y bôn ac â'r agweddau sylfaenol ysbrydol hyn y mae a wnelo crefydd. Ond y mae'r frwydr hefyd yn cael ei hymladd ym myd diwylliant, mewn cerddoriaeth a llenyddiaeth, mewn paentio a phensaernaeth, yn y sinema, ar y radio ac ar deledu. Anuniongyrchol yw diddordeb y gwleidydd yn y pynciau hyn—ond nid llai didwyll oherwydd hynny. Wedi'r cwbl, dyma'r gweithgareddau sy'n rhoi urddas a mawredd a dyfnder i fywyd dyn ac nid yw'r wleidyddiaeth na wna gyfrif ohonynt ond rhan o'r farbariaeth ddychrynllyd sy'n bygwth ein tagu.

Yn araf bach y mae dynion yng Nghymru yn cael eu hysbeilio o rai o nodweddion gwerthfawrocaf eu cymeriadau. Dowch inni ddweud ar unwaith nad yw hyn yn arbennig i Gymru. Dioddefa cenhedloedd eraill yn yr un ffordd. Bydd llawer o'r hyn a ddywedwn am Gymru yn wir hefyd am yr Alban, am Lydaw, am Friesland. Y mae'n wir hefyd am y cenhedloedd mawr, am Ffrainc ac am Loegr. Nid honni yr ydym am foment fod Cymru'n dioddef oddi wrth glwyf na ŵyr neb arall ddim amdano. Ond fe gredwn fod yn rhaid inni astudio cyflwr Cymru a darganfod meddyginiaeth ac nad yw'r un feddyginiaeth ddim o angenrheidrwydd yn mynd i dycio yn Ffrainc ac yng Nghymru. Gwell troi at rai o nodweddion y farbariaeth sy'n gweithio yn ein mysg ni.

## SYNIAD DYN AMDANO'I HUN

Yn y byd modern perffeithiwyd dulliau i ddiraddio dyn, rhai ohonynt yn ddulliau cwbl wyddonol ac ymwybodol, eraill ohonynt wedi tyfu'n ddiarwybod dan ein dwylo trwy ddiffyg gwyliadwriaeth. Gan ddilyn awgrymiadau'r athronydd Ffrengig Gabriel Marcel edrychwn ar rai ohonynt gan geisio dangos ffordd y maent yn gweithio yng Nghymru.

**Y mae syniad dyn amdano'i hun yn cael ei lygru.**

Dyma lygru'r ffynnon ei hun. Nid oes dim yn bwysicach i neb ohonom na'r syniad sydd gennym am ein hamcan a'n tynged yn y byd. Os llygrir y syniad hwn, llygrir y dyn ei hun. Unwaith y collir y syniad mawreddog am dynged dyn a dyfodd o'r pridd Cristionogol, buan yr â dynion yn llai na hwy eu hunain trwy geisio bod yn fwy na hwy eu hunain.

Mewn rhai gwledydd defnyddir pob dull posibl i ddysgu'r athrawiaeth nad yw dyn ond cynhyrchydd materol defnyddiau



materol. Peth ymhlith pethau ydyw ; y cymhlethaf o'r holl beiriannau. Llygriad dychrynllyd o syniad dyn amdano'i hun yw'r ddysgeidiaeth hon. I'r sawl a lwyr gredodd yr athrawiaeth hon bychan o beth yw mowldio ac ystwytho dynion i blesio mympwy llywodraeth. Gwaeth na hynny, cyflyrir dynion i dderbyn triniaeth fel hyn ; ânt i'w derbyn yn llawen. Megir dynion nad ydynt ond adlewyrchiad o'r syniad bychanus hwn am ddyn a'i dynged. Meddyliant amdanynt eu hunain fel pethau ac nid fel personau a bodlonant cyn bo hir ar gymryd eu trin fel pethau. Cymerant eu gwthio a'u camdrin heb brotest. Dyma berygl mawr Comiwnyddiaeth. Ac ni ellir gwadu nad yw'r dull hwn o feddwl wedi cael effaith ar Gymru.

Llygrwyd ein syniad ni fel Cymry amdanom ein hunain mewn ffordd arall hefyd. Ers cenedlaethau dioddefodd y Cymro gwrs addysg a luniwyd i'w berswadio nad yw ond dinesydd eilradd yn y Deyrnas Gyfunol. Nid yw hanes dirywiad yr iaith Gymraeg yn ystod y can mlynedd diwethaf ond stori llwyddiant yr addysgu hwn. Byth er Brad y Llyfrau Gleision yn 1847 poenydiwyd y genedl gan y syniad fod yn rhaid iddi ddysgu Saesneg (ac anghofio ei Chymraeg) er mwyn profi bod Cymry gystal bob tipyn â Saeson. Buom yn gwneud ein gorau glas ers canrif gyfan i'n perswadio ein hunain ein bod cystal â hwy. Ac ni lwyddasom eto—fel y dengys y gyfres hir o apwyntiadau Seisnig i gadeiriau Prifysgol Cymru. Y mae ein hawdurdodau cyhoeddus o hyd yn credu bod Sais da yn well na Chymro da a bod Sais gwael yn well na Chymro go lew.

## RHWYG

Esgorodd y llygru hwn ar rwyg trychinebus yn ein bywyd cenedlaethol. Y rhwyg hwnnw yw'r un rhwng y Cymry Cymraeg a'r Cymry di-Gymraeg. Fe ddywed y Cymry Cymraeg wrthych heb droi blewyn nad yw'r iaith o unrhyw werth i ddod ymlaen yn y byd—nid oes iddi werth masnachol, meddant hwy. (Dyma'r cysylltiad rhwng y syniad nad yw dyn ond peiriant materol a dirywiad yr iaith). Fe ddywed y Cymry di-Gymraeg yr un peth wrthych. Y mae tristwch yma am fod y genedl wedi derbyn darlun estroniaid o'r Cymro Cymraeg fel creadur eilradd y gellid ei wella'n fawr trwy ei ddiddyfnu oddi wrth ei iaith hanesyddol a'i droi'n Sais.

Ond dwyshawyd y tristwch oherwydd bod cynifer o'r Cymry Cymraeg wedi eu gwenwyno mor llwyr gan y ffiloreg hon nes

troi'n ffyrnig ar y Gymraeg. Y mae nifer sylweddol ohonynt sy'n barod ar drawiad amrant i ymgyrchu'n ffiaidd yn erbyn yr iaith. Tebyg mai'r ymosodiadau mwyaf adnabyddus yw'r rheini ar yr Eisteddfod Genedlaethol. Gellir dibynnu ar bobl fel Mr. David Llewellyn, yr Arglwydd Ogmore a'r Arglwydd Raglan i ddangos casineb sy'n ymylu ar ffanaticiaeth tuag at unrhyw ddosbarth o bobl sy'n gwrthsefyll y llanw Seisnig. Y gwir yw fod hyn yn haeddu astudiaeth seicolegol wyddonol. Y mae cysylltiad agos rhwng creulondeb ac eiddigedd. Dymunai'r Almaenwyr fod yn genedl etholedig a thrwy eu creulondeb annynol at yr Iddewon dangosasant eu heiddigedd at y genedl a oedd yn wir yn etholedig. Felly hefyd y Cymru hyn. Mynegant eu heiddigedd tuag at y Cymry a gadwodd iaith hanesyddol y genedl—nid fel y dylai pobl wareiddiedig trwy ei dysgu—ond mewn erlid chwerw ar y sawl a faidd ei hamddiffyn.

Effaith hyn i gyd yw creu argyhoeddiad yng nghalonnau Cymry nad oes le iddynt yn y byd tra bônt yn Gymry. Creir ynddynt ysbryd taeogaidd. Ant i gredu fod Duw wedi eu creu i wasanaethu Lloegr. Aeth y Cymro i gywilyddio oherwydd yr union beth a rydd arbenigrwydd arno yn y teulu dynol. Dysgodd fod â chywilydd—nid am ei lyfrdra a'i ragrith a'i daeogrwydd—ond am y peth a'i gwna'n gwbl arbennig. Gan nad oedd cyfalafwyr a gwleidyddion yn gweld unrhyw werth yn y traddodiad cenedlaethol Cymreig o'i bwyso yn eu cloriannau masnachol hwy, aeth y Cymry ati i helpu'r barbariaid i daflu'r trysorau i'r domen. A thristach na thristwch yw bod cynifer o Gymry yn mwynhau'r gwaith o'u bychanu eu hunain.

## HANES

**Llygrir dynion pan ddiddyfnir hwy oddi wrth hanes eu gorffennol.**

Nid oes gan y barbariad orffennol ; gan wareiddiad yn unig y mae gorffennol. Bomia'r barbariad eglwysi cadeiriol ; llosga lyfrau ; rhwyga ddarluniau ; chwâl hen adeiladau i godi cytiau iddo'i hun. Try wlad yn ddiffaethwch a thoddi cerfluniau i wneud gynnau. Iddo ef, nid yw'r cadwyni tyner sy'n cydio dynion wrth ei gilydd mwy na'r iaith a gyflea deimladau calon dyn i'w gyfaill yn ddim. Gellir dileu'r gorffennol er mwyn tipyn o sbort heddiw. I'r barbariad nid yw cenedlaethau'r gorffennol ond grisiau. Moddion ydynt i gyrraedd ei ddiben ef. Nid oes angen eu cofio na'u gwerthfawrogi na'u parchu.



A'r gŵr heb orffennol yw'r gŵr heb ddyfodol. Nid yw o'r pwys lleiaf i'r barbariad y bydd eraill yn byw ar y ddaear ar ei ôl ef. Pam y dylai ef ystyried y bydd eneidiau a chalonnau gan ei blant a chan blant ei blant ? Aiff ef rhagddo gyda'i arbrofion niwclear. Gwenwyna ei ddisgynyddion genedlaethau cyn eu geni. Nid oes gan y barbariad dreftadaeth ; efe biau popeth i falu ac i chwalu yn ôl fel y bydd y chwiw yn ei daro.

I'r Comiwnydd—fel i bawb sy'n breuddwydio am Iwtopia ar y ddaear—nid yw'r gorffennol o wir werth ynddo'i hun. Nid yw ond ysgol yn esgyn i'r byd perffaith. Unwaith y mae'r genhedlaeth lwcus wedi dringo i'r Iwtopia gellir cicio'r ysgol ymaith. Nid oes ddiben iddi mwy.

Ac y mae'r barbariad wrth ei waith yng Nghymru. Beth yw pymtheg cant o flynyddoedd o wareiddiad iddo ef ? Nid yw diwylliant cenedl yn ddim iddo. Gellir dileu gorffennol Cymru. Nid yw dynion ond stumogau a "dwylo"—nid oes hanes iddynt. Felly, torrer o un i un y llinynnau sy'n ein cydio wrth y gorffennol. Dysger hanes Lloegr yn ei le ! Ac felly fe dyfwn ninnau'n farbariaid a all fwynhau'r teimladau cyfoglyd a ddaw i'r bobl a ŵyr sut i fychanu eu tadau a'u cenhedlodd a'r mil cenedlaethau a roddodd inni rywbeth na fedd neb arall yn y byd crwn, cyfan,—ein hanes Cymreig.

## YSBWRIEL

**Llygrir dynion hefyd lle bynnag y tanseilir eu hunan-barch trwy eu perswadio nad ydynt namyn ysbwriel dynol.**

Dyma efallai un o'r pethau mwyaf echrydus yn ein byd modern ni. Er enghraifft, dyma un o effeithiau tristaf rhyfel modern gyda'i ffoedigion yn aros fel broc môr wedi i'r storm basio. Y mae'n digwydd lle bynnag y bo dynion wedi eu llethu gan dlodi, afiechyd, diweithdra ac ofn. Oni theimla dynion fod ganddynt gyfraniad i gymdeithas a bod eu hangen hwy ar eu cyd-ddynion buan y suddant i anobaith.

Nid yw'r ffaith fod pobl Cymru hyd yma wedi osgoi ffurfiau erchyllaf y llygru hwn yn rheswm yn y byd dros anwybyddu y llygru sydd yn digwydd yn ein plith. Ni all neb fesur y llygru a ddigwyddodd yng Nghymru trwy gael ei chlymu draed a dwylo wrth gerbyd rhyfel Lloegr. Ni all neb chwaith fesur effaith camlywodraeth ar Gymru. Bu diweithdra yn rhemp yng Nghymru

ers cenedlaethau. Ac y mae diweithdra yng Nghymru bob amser yn golygu ymfudo. Yr ymfudo hwn sy'n cuddio'r wir sefyllfa. Oni bai am yr ymfudo o Wynedd yn ystod y deugain mlynedd diwethaf byddai nifer y diwaith ym Môn, Arfon a Meirion yn rhywbeth tebyg i 10,000. Cuddiwyd cam-lywodraeth gan ymfudo. Gan nad oes unrhyw ymgais wedi ei wneud gan unrhyw lywodraeth Seisnig i greu bywyd economaidd sefydlog a ffyniannus i bobl Cymru, bu'n rhaid iddynt adael eu gwlad.

A thanseiliwyd hunan-barch pobl o ganlyniad. "*Nid oes ein hangen yma*," meddant gan bacio eu bagiau a gwerthu eu cartrefi a chymryd eu taith dros glawdd Offa. Ac adlais o hyn yw'r besimistiaeth sy'n bwyta i'n heneidiau ni. "*Waeth inni heb a gwneud dim*," yw'r gair sy'n dod gyntaf i enau pobl y torrwyd eu hyder ac y gwenwynwyd eu hysbryd. Teimlant nad ydynt ond ysbwriel dynol. Gan fod anghenion pawb yn Lloegr yn cael eu hystyried cyn troi sylw at anghenion Cymru lledodd y gred yn ein plith na allwn ni ddisgwyl am ddim gwell na thipyn o gardod yn awr ac yn y man. Wedi'r cwbl, beth all ysbwriel dynol ei ddisgwyl ond cardod ?

Ac y mae blynyddoedd lawer o ddweud celwydd gan ein meistri wedi ein cyflyru i dderbyn sarhad yn union fel pe bai'n ganmoliaeth. Trown felly at yr olaf o'r dullai llygru y mae'n werth sylwi arnynt yn awr.

## PROPAGANDA

**Llygrir dynion lle bynnag y defnyddir propaganda fel offeryn i ladd ymateb personol ac unigol i gwestiynau cyhoeddus.**

Lle bynnag y bo pobl yn gallu dod at ei gilydd i fynegi eu barn ac i berswadio eraill i dderbyn eu safbwynt ceir propaganda. Ond tra bo eraill yn cael pob rhyddid i holi a beirniadu, y mae'n bropaganda iach. Dyma sy'n gwneud democratiaeth yn bosibl. Ei ragdybiau yw rhyddid a pharch tuag at argyhoeddiad a dealluswrwydd pobl eraill.

Ond y mae propaganda sy'n wenwynig. Go brin bod angen esbonio ei nodweddion i bobl yr ugeinfed ganrif. Y peth sy'n syndod yw diniweidrwydd pobl wyneb-yn-wyneb ag ef. Y maent yn ei adnabod os cysylltir enw Mr. Krushchev neu Dr. Goebbels ag ef ; nis gwelant pan fo Mr. James Griffiths yn noddwr iddo. Un peth dryslyd ynglŷn â'r propaganda y dioddefwn ni oddi



wrtho yw ei holl-bresenoldeb. Nid cynnyrch un swyddfa nac un person mohono. Y mae iddo gannoedd o ganolfannau. Llefara trwy'r radio a'r teledu ; trwy'r papurau dyddiol a'r cylchgronau Fe'i noddir gan bleidiau gwleidyddol pwerus a chan gyrff cyhoeddus o bob math. A bellach daeth yn gred gyffredinol yng Nghymru fod celwydd yn troi'n wirionedd os oes digon o bobl yn ei gredu. Yng Nghymru y mae'r propaganda swyddogol yn defnyddio grym ac awdurdod nid i ddysgu pobl i farnu drostynt eu hunain ond i barlysu barn. Ac i'r graddau y mae'r propaganda'n llwyddo i barlysu barn, i'r graddau hynny y mae pobl yn tyfu'n ddiamynedd â'r sawl sy'n galw am ryddid barn effeithiolach.

Nid cwbl ddi-sail y gwyn Sofietaidd fod papurau a sinemau'r byd gorllewinol yn mawrygu rhyfel a thrais. Ystyrier y BBC. Aeth pymtheng mlynedd heibio er diwedd y rhyfel diwethaf ond ni chaniatawyd inni ei anghofio hyd yn oed am un wythnos. Y mae'r Llu Awyr a'r Llynges a'r Fyddin, y capteiniaid a'r cadfridogion, y morwyr a'r gwleidyddion yn ail-ymladd eu brwydrau o flaen y camerau a'r meicroffonau. A bob amser yn dod o'u brwydrau gyda gogoniant newydd. Ni wnaeth Lloegr nac America (na Rwsia, yn wir) ddim byd bach na llwfr yn y gethern fawr honno. Popeth yn ddewr a godidog a da. Ond sawl awr a gafwyd gan y BBC mewn pymtheng mlynedd i ddisgrifio beth yn union a ddigwyddodd yn Pearl Harbour, er enghraifft ? Bu distawrwydd mawr ynglŷn ag ymddygiad cwbl giaidd Roosevelt yn aberthu tair mil o forwyr ei wlad trwy gadw'n ddirgel pob gwybodaeth am fwriad y Siapaneaid i ymosod ar y porthladd. Ni chawsom wybod pa mor ryfeddol gyfrwys y bu'r Arlywydd i lithio Siapan i ymosod ar y Taleithiau Unedig. Neu pa sawl awr a roddwyd i adrodd hanes y twyll a guddiodd y gwirionedd am ollwng y bom atom ar Hiroshima **ar ôl** i Siapan ofyn am delerau heddwch ? I gael yr ochr yma i'r stori rhaid troi i lyfrau haneswyr Americanaidd a chylchgronau tebyg i *Peace News*.

## A CHYMRU

**At ei gilydd y mae'r propaganda pwerus hwn yn erbyn Cymru.**

Dadleuir yr achos yn erbyn Cymru gyda chysondeb arswydus a di-ildio. Y mae'n gyfrwys ac y mae'n ddylanwadol ac nid oes adnoddau gan Gymru i'w wrthsefyll. Gall y propaganda weithio mewn dwy ffordd ; naill ai trwy fychanu bwriadol neu trwy anwybyddu. Gellir trafod materion Cymreig yn ysmala ac yn sarhaus—

dyma ddull a ddefnyddir yn effeithiol iawn gan y cylchgronau wythnosol Seisnig a chan bapurau 'parchus.' Ac y mae digon o Gymru sy'n feistri ar y dull yma, ac yn barod iawn i fenthyca eu dawn am lawer llai na phum gini. Ond mwy damniol, fel arfer, yw peidio â dweud dim. Gadewir yr awgrym felly nad yw materion Cymreig o'r pwys lleiaf o'u cyferbynnu **a** materion o dragwyddol bwys fel rhagolygon y cnwd tatws yn Rutland, neu ansawdd y coffi yn stesion Hull.

Ond y llywodraeth sy'n dal yr awenau mwyaf dylanwadol. Sicrheir awdurdod tros y prif offerynnau propaganda gan y pleidiau gwleidyddol mawr trwy wahardd darllediadau gwleidyddol i Blaid Cymru. Yr unig ddarllediadau gwleidyddol y caniateir i bobl Cymru eu clywed yw rhai gan y Blaid Lafur, y Blaid Geidwadol a'r Blaid Ryddfrydol. Ac y mae'r ddwy gyntaf yn agored ac yn ddigymrodedd wrth-Gymreig a'r Rhyddfrydwyr yn llugoer. Y canlyniad yw na chaiff pobl Cymru byth gyfle i glywed yr achos tros Gymru yn cael ei ddadlau gan Blaid Cymru. Dyma beth yw propaganda gwenwynig; propaganda sy'n defnyddio awdurdod nid i helpu pobl i lunio barn oleuedig ond i barlysu barn. Dengys yn eglurach na dim byd arall fel y mae siniciaeth gwrth-werinol yn ysu eneidiau yr arweinwyr gwleidyddol yng Nghymru. Y canlyniad yw pan ddelo etholiad fod bron bopeth yn bwysicach i bobl Cymru na thynged Cymru ei hun. A dyna fel y mae'r arweinwyr yn dymuno iddi fod. Nid oes ganddynt ddiddordeb bellach mewn gwirionedd ; eu prif ddiddordeb yw cadw awenau awdurdod yn eu dwylo cyd ag y gallant.

## CYMDEITHAS

Wrth astudio gwahanol ddulliau o lygru cymeriadau dynion, daeth un peth yn bur eglur. **Ceir y llygru yng Nghymru yn y cysylltiadau rhwng dyn â'i gymdeithas.** Hyd yma ni chafwyd llygru uniongyrchol bersonol. Nid yw dynion yn cael eu cymryd i'r ddalfa gan yr heddlu a'u cadw'n effro am ddyddiau i'w poenydio. Llygrir dynion yng Nghymru trwy wenwyno'r gymdeithas y perthynant iddi trwy hanes a natur. Trwy danseilio cymdeithas dyn fe'i gwneir yn rhywbeth llai na dyn. A chan fod gelynion Cymru wedi gweld yn dda i ymosod ar ein cenedligrwydd ni, yno y mae ein brwydr wleidyddol ni boethaf. Ein gwrthwynebwyr a wnaeth genedlaetholwyr ohonom.

Beth sydd gennym i'w ddweud wyneb-yn-wyneb â'r llygru hwn ?



Gall ein beirniaid gael cryn hwyl wrth ddisgrifio ein diniweidrwydd. Nid ydym, meddant, ond plantos yn bwhwman. Tybiwn y bydd popeth yn ardderchog ond cael senedd Gymreig. Paentiwn ddarlun tywyll o gyflwr Cymru ac yna pan ddown i gynnig ateb nid oes gennym ddim byd mwy chwyldroadol i'w osod gerbron y cyhoedd na llywodraeth fach ffansi. Sentimentalwyr ydym sy'n tybio y ceir nef newydd a daear newydd ond cael casgliad o ddynion yn cyfarfod yng Nghaerdydd yn lle'r casgliad presennol sy'n cyfarfod yn San Steffan. Statws Dominiwn yw'r Nirfana lle bydd pob daioni a chyfiawnder yn trigo. O leiaf, dyna ddywed ein beirniaid.

Y mae'n wir, wrth gwrs, nad ydym yn llesmeirio bob tro y meddyliwn am y casgliad o ddoethion sy'n eistedd yn Westminster. Bu Mr. Aneurin Bevan yn ddiweddar yn esbonio nad yw'r Ceidwadwyr yn Nhŷ'r Cyffredin ond 'sypyn diffrwyth o dwpsys ufudd.' Ac y mae gan Mr Aneurin Bevan brofiad maith o Dŷ'r Cyffredin. Gallwn ninnau ychwanegu o'n profiad tlodaidd ninnau nad yw pawb sy'n eistedd y tu cefn i Mr. Bevan yn y Tŷ yn wyrth o ffrwythlondeb gwrthryfelgar.

Er hynny, nid ydym erioed wedi dadlau mai'r *unig* beth sy'n angenrheidiol i roi bywyd newydd i'r genedl yw cael senedd yng Nghaerdydd. Sylweddolwn fod yn rhaid i'r genedl drwy ei chrefydd, ei chelfyddyd, ei cherddoriaeth, ei gwaith a'i hynni greu ei bywyd ei hun. *Y peth a ddywedwn ni yw y mygir yr ynni hwn yn llwyr heb senedd.* Y peth a ddywedasom ar hyd y blynyddoedd yw ei bod yn bosibl llunio polisi gwleidyddol a chymdeithasol ar gyfer Cymru a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i'r genedl fynegi ei hathrylith lawer iawn yn well. Ac y mae senedd—sef yr arwydd allanol o ryddid cenedlaethol—yn hanfodol i'r polisi hwnnw.

## RHYDDID CENEDL

**Y rheswm am hyn yw ein bod yn cyfrif cenedl yn beth pwysicach na gwladwriaeth.**

Y mae pawb ohonom yn perthyn i lu mawr o unedau cymdeithasol. Yr ydym yn aelodau mewn teulu, mewn eglwys, mewn cyngor a chlwb. Ymunwn â'n cyd-ddynion i weithio mewn chwarel a glofa a ffatri. Patrwm cymhleth o gymdeithasau yw ein bywyd ni ac o'r cymdeithasu hwn y daw rhin a hwyl i'n bywyd. Y mwyaf cynhwysfawr o'r cymdeithasau hyn yw'r genedl a dibynna iechyd y genedl ar y bywyd a'r ynni sydd yn y cymdeithasau a

gynhwysir ynddi. Un o'r ffurfiau mwyaf trawiadol ar gymdeithas yw'r wladwriaeth. Eto agwedd ar fywyd y genedl ydyw hithau. O safbwynt y genedl cymdeithas ymhlith cymdeithasau yw'r wladwriaeth hithau. **Gwadwn ar ei ben fod y wladwriaeth yn gymdeithas sy'n cynnwys pob cymdeithas arall.** Mynnai'r Athro H. J. Laski fod y wladwriaeth yn gymdeithas o gymdeithasau (*A Grammar of Politics*. td. 105). Ond camsyniad dybryd yw hyn. Y genedl, nid y wladwriaeth, sy'n cyfateb i'r diffiniad hwn. O'r camsyniad hwn y tardd tueddiadau totalitaraidd y Mudiad Llafur yng Nghymru. Prif offeryn totalitariaeth yw'r wladwriaeth a chan hynny cais ddyrchafu'r wladwriaeth a'i gwneud yn gymdeithas cwbl arbennig yn ei hawdurdod a'i gallu. Unwaith y gwneir hyn a diffinio'r wladwriaeth fel cymdeithas sy'n cynnwys pob cymdeithas arall, y mae'r drws yn agored led y pen i dotalitariaeth. Gwedir hawliau cymdeithasau eraill i wrthsefyll y wladwriaeth mewn dim. Dyna'r patrwm a ddatblygwyd yn yr Almaen gan Adolf Hitler. Gorfodwyd pob cymdeithas i wasanaethu'r wladwriaeth. Plygwyd yr ysgolion, y prifysgolion, cymdeithasau ieuenctid, mudiadau'r gweithwyr a mudiadau merched i blygu i iau y wladwriaeth. Lladdwyd yr argyhoeddiad fod i'r cymdeithasau hyn werth ynddynt eu hunain ; mesurid eu gwerth yn ôl eu hufudd-dod i'r wladwriaeth. Penllanw'r datblygiad hwn oedd ceisio gorfodi'r eglwysi hwythau i gydnabod tra-awdurdod y wladwriaeth. Ar yr un egwyddor gwedir gwerth y genedl ond fel llawforwyn i'r wladwriaeth hollalluog. Mawrygid Luther, Bach, Wagner a Goethe yn ôl fel y gellid mawrygu'r wladwriaeth Ellmynaidd drwyddynt hwy a'u gwaith. Beth bynnag yng ngorffennol yr Almaen na ellid ei wyrdroi i wasanaethu'r amcan hwn, fe'i hanghofid.

Dyma batrwm y dotalitariaeth sy'n gwneud Moloch o'r wladwriaeth ac yn gorfodi aberthu popeth iddi hi. Yng Nghymru y mae rhai o nodweddion hyllaf y patrwm hwn yn boenus o amlwg. Nid gwasanaethu'r genedl Gymreig y mae'r wladwriaeth yng Nghymru. Y wladwriaeth Seisnig yw'r wladwriaeth yng Nghymru a gorfodir y genedl i blygu i'w hewyllys hi. Ni chaniata na'r Blaid Geidwadol na'r Blaid Lafur i bobl Cymru glywed llais Plaid Cymru ar y radio. Hwynthwy ill dwy yw cynheiliaid y drefn sy'n darostwng y genedl i'r wladwriaeth. Trwy eu gweithredoedd a'u geiriau dangosant mai eu hathroniaeth hwy yw bod y wladwriaeth Seisnig yn hollalluog yng Nghymru. Mewn gwlad democrataidd y mae'r wladwriaeth yn gwasanaethu'r genedl, yng Nghymru y mae'r genedl yn gwasanaethu'r wladwriaeth. Gall mwyafrif pobl



Cymru wrthwynebu cynllun Lerpwl i foddi Cwm Tryweryn. Ond nid llais y genedl Gymreig sy'n penderfynu tynged unrhyw gwm yng Nghymru ond hwylustod gwladwriaeth—y wladwriaeth Seisnig. Felly gyda Mr. Henry Brooke ar y blaen, totalitariaeth sy'n cario'r dydd. Ni all Cymru ddianc o hafflau'r dotalitariaeth hon heb gael ei gwladwriaeth ei hunan—gwladwriaeth a fydd yn ddarostyngedig i ewyllys ein pobl.

Dyna pam y mae cenedlaetholdeb yn rhan o'r frwydr yn erbyn awydd dynion i wneud y wladwriaeth yn hollalluog. Y mae ar flaen yr ymdrech yn erbyn yr eilunaddoliad newydd sy'n tybio nad yw cymdeithasau dynion ond mân us y gall y wladwriaeth eu chwythu ymaith os mynn. Nid gan wleidyddion Lloegr na swyddogion unrhyw wladwriaeth arall y mae'r hawl i ddweud pa bryd y daeth rhawd Cymru nac unrhyw genedl arall i ben. Pan gymero gwleidyddion arnynt eu hunain i wneud hyn y maent yn eu twyllo eu hunain eu bod yn dduwiau. A phan fo dynion wedi eu cyffwrdd a'r gwallgofrwydd hwnnw nid oes dim aberth yn ormod i ddod â hwy at eu synhwyrau.

Dyna'n union ddwyster ein brwydr genedlaethol yng Nghymru'n awr.

## RHYDDID

Daw ein dadl â ni yn awr i olwg ein hegwyddor wleidyddol fwyaf adnabyddus a nod cyntaf ein gweithgarwch.

> **Credwn mai'r cam cyntaf tuag at unioni'r camwri a ddioddefodd ein cenedl yw ennill i Gymru'r rhyddid gwleidyddol hwnnw a'i gwna'n bosibl iddi ddiogelu popeth sy'n werthfawr yn ei thraddodiad cenedlaethol a'i gyfoethogi trwy gysylltiad a chenhedloedd eraill. Mewn gair, rhaid wrth hunanlywodraeth i Gymru.**

Y rhyddid gwleidyddol hwn yw'r cam cyntaf tuag at adfer i bobl Cymru'r urddas gwareiddiedig hwnnw a ddylai berthyn iddynt. Hwn hefyd a sicrha ddemocratiaeth iachus yn ein plith. Am ryddid y gofynnwn, nid am annibyniaeth, am y rheswm syml na all cenedl dyfu i'w llawn dwf heb gysylltiadau bywiol â chenhedloedd eraill.

Yn fynych iawn fe'n beirniedir am osod nod mor blwyfol o'n blaen. Yn lle mwynhau'r llu cysylltiadau cydwladol a sicr-

heir inni trwy ein hymgorfforiad yn Lloegr, hiraethwn am blwyfoldeb pwmp y pentref. Dymunwn godi mur mawr o'n hamgylch ac ysgrifennu ar ein pyrth, "*Estroniaid, cedwch allan* !" (Gyda llaw, pe dymunai pobl Cymru weithredu yn y dull hwn, pa hawl foesol sydd gan Loegr i'w rhwystro ?) Ond dyma thema llawer beirniadaeth arnom.

Y mae amcanion Plaid Cymru'n dra gwahanol. Mynn weld Cymru'n chwarae ei rhan yn ôl ei maint a'i gallu yng nghynghorau Ewrob a'r byd. Nid yw cysylltiadau byd-eang yn arbed pobl rhag plwyfoldeb—nid oes a wnelo plwyfoldeb ddim â maint. Wedi'r cwbl, y mae pobl sy'n brolio byth a hefyd oherwydd eu gwyliau ar gyfandir Ewrob ; buont ym Mharis, Rhufain a Fienna. Dychwelant heb yr un sillaf o Ffrangeg, Eidaleg nac Ellmyneg ; rhyfeddant fod dinasoedd y Cyfandir mor llawn o estroniaid anghyfiaith ac o fewn tair wythnos ar ôl cyrraedd adref ni wyddant pa un ai Llywydd y Swisdir ai perchennog sinema yn Fienna oedd Leonardo da Vinci. Ar y llaw arall, y mae miloedd o bobl na fuont fawr erioed o olwg pwmp y pentref sydd, yn rhadlonrwydd eu calonnau a'u gwerthfawrogiad o bopeth sy'n gwneud bywyd dynion yn war a chyfoethog, yn gydgenedlaetholwyr yn wir. Bu'n drychineb fod cymaint o arweinwyr Cymru—yn enwedig yn y maes gwleidyddol—wedi ymroi i ddynwared plwyfoldeb y cylchoedd llywodraethol yn Lloegr yn hytrach na rhadlonrwydd dynol mwyafrif gwehyddion Yorkshire a nyddwyr cotwm Lancashire. Nid lluosogrwydd cysylltiadau â phobl ym mhellafion daear sy'n achub pobl rhag plwyfoldeb ond parch graslon tuag at y bobl y mae dyn yn eu cyfarfod—boent lawer, boent ychydig. Er gwaethaf ei chysylltiad â Lloegr, y mae Cymru'n dioddef llawer oddi wrth blwyfoldeb. Nid yw hynny i ryfeddu ato. Un ffordd o ddiogelu sefyllfa ansicr yw bychanu eraill. Dyna'r dull imperialaidd mewn gwledydd tramor ; dyna'r dull a ddysgodd pobl Cymru oddi wrth lywodraethwyr Lloegr. A dyna un o'r pethau y byddai rhyddid cenedlaethol yn ei ladd yn gyflym.

## BARA

**Credwn nad yw rhyddid cenedlaethol yn rhyddid gwir oni byddo gan y genedl gyfrifoldeb llawn dros ei bywyd economaidd.**

Un o'r enllibau a ail-adroddir fynychaf am Blaid Cymru yw nad oes ganddi ddiddordeb ym mywyd economaidd Cymru. Dywedodd mwy nag un siaradwr oddi ar lwyfannau cyhoeddus fod



Plaid Cymru'n gwybod yn iawn mai canlyniad cyntaf hunanlywodraeth fydd tlodi a diweithdra. Eto, fe ddywedir, gan mor orffwyll ydym tros ddiwylliant yr ydym yn barod i dalu'r pris hwn am ryddid Cymru.

Y ffordd symlaf i danseilio'r gwrthwynebiad hwn yw trwy ddangos pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng cyfrifoldeb economaidd a rhyddid gwleidyddol.

Er nad trwy fara'n unig y bydd byw dyn, y mae'n rhaid iddo wrth fara i fyw. A lle bynnag y mae'r frwydr tros gynhaliaeth mor ddwys fel y gellir yn deg ddweud fod dyn yn byw er mwyn bara, yno y mae dyn wedi colli bron y cwbl o'i ryddid. Rhan bwysig iawn o urddas dyn yw ei fod yn gallu rheoli moddion ei gynhaliaeth. Gŵyr pawb ohonom a fagwyd mewn cartrefi gwenriol gymaint y mae'n rhaid i dlodion ddioddef trwy ffalsio i gyfoethogion er mwyn sicrhau bwyd a dillad. Gŵyr ecsploetwyr pob oes nad oes afael fwy effeithiol ar neb na chael awdurdod dros ei fara beunyddiol. Gellir tanseilio rhyddid dynion trwy gadw rheolaeth ar foddion eu cynhaliaeth. Ystrydebau yw'r rhain i gyd pan soniwn am bersonau unigol ac ni wnaeth deddfwriaeth radicalaidd a sosialaidd yn y Deyrnas Gyfunol ddim byd gwerthfawrocach i'r gweithiwr na sicrhau iddo ryddid oddi wrth y ddibyniaeth sarhaus hon ar gardod eraill.

Gwaetha'r modd, ni welodd y mudiad sosialaidd yng Nghymru mor bwysig yw'r egwyddor hon i fywyd cenedl. Gall cenedl hefyd gael ei gorfodi i fyw ar gardod. Gall hithau ddibynnu ar ewyllys da eraill. Heb gyfrifoldeb dros ei bywyd economaidd, gall cenedl edwino a marw.

## PWY SY'N RHEOLI ?

Yn y byd modern dysgodd dynion nad oes raid iddynt fod yn gaeth i'w anghenion economaidd. Gallwn drefnu a diwygio ein bywyd economaidd. Ni all unrhyw wladwriaeth fodern—hyd yn oed yn y Taleithiau Unedig—fforddio i beidio ag ymyrryd ym mywyd economaidd y bobl. Nid yw dyn at drugaredd deddfau deillion angen a chyflenwad ; gall ddefnyddio ei reswm i reoli'r bywyd economaidd er budd pawb. Nid oes dim newydd yn hyn ; dyma honiad sylfaenol sosialaeth yn ei gwahanol ffurfiau.

Ond edrycher ar Gymru. Pwy sy'n trefnu bywyd economaid Cymru ? Ac er budd pwy y'i trefnir ? Yr ateb i'r ddau gwestiwn

yw, "*Lloegr*." Trafodir Cymru fel rhan o Loegr ; brolia'r tref-nyddion economaidd nad oes y fath beth ag economi Gymreig. Nid ydyw, meddant, ond lledrith ym meddyliau cenedlaetholwyr. A thristwch pethau yw fod y trefnyddion economaidd yn iawn—y maent wedi gofali fod holl economi Cymru dan fawd Lloegr. Os yw Lloegr yn chwennych ein glo, y mae hi'n ei gymryd. Gall pyllau glo Lloegr golli arian ond ni chaeir hwy cyn cau pyllau Cymreig yn gyntaf. Canlyniad hyn yw fod annhrefn economaid yn ysu bywyd ein cenedl. Gelwir yn barhaus ar weithwyr Cymru i ddioddef ymfudo a diweithdra er budd eu brodyr Seisnig ; ond os awgrymir na byddai'n ddrwg o beth i weithwyr Lloegr ddioddef ychydig er budd eu brodyr Cymreig ar unwaith sonnir am undod y dosbarth gweithiol trwy'r byd. Un enghraifft yn unig. Bob nos y mae miloedd o alwyni o laeth Môn yn mynd i Birmingham a'i droi'n siocled. Bob dydd daw siocled Birmingham tros y Borth i'w werthu yn siopau Môn. Pan awgrymwyd y byddai'n dda o beth cynhyrchu'r siocled ym Môn, yr ateb a gafwyd oedd y byddai hynny'n creu diweithdra ymhlith gweithwyr Birmingham.

Daw'n amlycach bob dydd fod undod y gweithwyr yn beth unochrog iawn pan fo rhai ohonynt yr ochr yma i Glawdd Offa.

Os yw Cymru i barhau'n genedl rhaid iddi fod yn gyfrifol am ei bywyd economaidd. Felly'n unig y gall hi sicrhau y bydd trefnu economaidd yn cyfoethogi a chadarnhau ei bywyd ac nid ei ddifa. Dyna pam y mae senedd Gymreig yn angenrheidiol.

Y mae'n werth aros am funud yma i sylwi ar y sefyllfa eironig a oddiweddodd y Blaid Lafur yng Nghymru am na feddyliodd yn ddigon beiddgar nac yn ddigon sosialaidd ar y cysylltiad rhwng cyfrifoldeb economaidd a rhyddid cenedl. Bu Mr. James Griffiths a'i gynffonwyr yn dweud wrthym hyd at syrffed fod economeg Cymru ac economeg Lloegr wedi eu cyd-blethu mor glos fel na ellir bellach eu datglymu. Gan hynny, meddant, ofer siarad am hunanlywodraeth i Gymru.

Rhagdybiaeth y ddadl ryfeddol hon yw bod deddfau economeg fel deddfau natur, yn ddigyfnewid. Am fod glo Cymru wedi arfer mynd i Loegr (dyma'r dyb) nid oes ddichon iddo fynd i unman arall. Gan mai Lloegr yw'r farchnad draddodiadol i gig a llaeth Cymru, ni ellir trefnu marchnad arall iddynt.

Nid oes angen ond pwysleisio mai creadigaeth dynion yw



fframwaith economaidd Cymru a disgrifiad o'r ffordd y mae'r fframwaith wedi ei adeiladu yw'r "deddfau economaidd." A chan mai creadigaeth dynion ydyw ein bywyd economaidd, gall dynion ei newid. Go brin bod angen darlithio wrth unrhyw sosialydd ar wirionedd sy'n gymaint ystrydeb iddo. Ac eto treulia arweinwyr y Blaid Lafur yng Nghymru amser mawr yn gyrru eu cynulleidfaoedd i gysgu gydag anerchiadau trymaidd sy'n profi na ellir newid trefniadaeth economaidd Cymru. Ond gofalant gyn-wys paragraffau porffor tua'r diwedd i ddeffro eu cynulleidfaoedd. A thema'r paragraffau proffor yw gallu dyn i reoli ei fywyd econo-maidd. Gall dyn, y mae'n ymddangos, reoli ei amgylchfyd econo-maidd ond iddo beidio â bod yn Gymro.

Y peth sy'n eironig yw bod yr union bobl a ddadleuodd yn ffyrnig ac yn ddewr yn erbyn damcaniaeth y cyfalafwyr bod deddfau economaidd yn anghyfnewidiol ac yn eu rheoli eu hunain heb ymyrraeth dynion, eu hunain wedi cofleidio'r ddamcaniaeth honno fel rhan o'u cynllwyn i atal tyfiant y mudiad cenedlaethol Cymreig. Cynheiliad cryfaf *laissez-faire* yng Nghymru'n awr yw'r Blaid Lafur. Dyna fesur ei llygredd ; gwadodd ei hegwyddor syl-faenol er mwyn cadw Cymru'n gaeth.

Ond y mae mor eglur â golau dydd na bydd iechyd cym-deithasol yng Nghymru nes cawn senedd a fydd yn gyfrifol am ein bywyd economaidd.

## CYFRIFOLDEB

Unwaith eto y mae'n werth pwysleisio mai'r hyn a ofynnwn amdano yw cyfrifoldeb economaidd nid annibyniaeth economaidd.

Treulia ein beirniaid lawer o inc ac anadl yn esbonio mor drist fydd Cymru pan ddaw'r cenedlaetholwyr i awdurdod a phan fydd Cymru'n rhydd. Y mae'n ddarlun diddorol.

Bydd yn rhaid inni ddibynnu'n llwyr ar ein hadnoddau ein hunain. Ni chawn fwyta na banana nac oren ; bydd yn rhaid inni yfed ein llefrith ein hunain a llosgi ein glo ein hunain. Ni chawn goco na the. Ni ddaw Madeira na Champagne trwy borthladdoedd Cymru a bydd yn rhaid inni wneud y gorau ohoni gyda Chorona a thomatos Llangadog. Ni chawn foduron newydd na lampau trydan. Ni chaniateir i neb siopa yn Lerpwl na Bryste a thoir pob papur Seisnig yn ei ôl yng Nghaer, Croesoswallt, Hen-ffordd a Severn Junction. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn parhau am dair wythnos a gorfodaeth ar bawb i fod yno. Ni ddysgir daearyddiaeth na Lladin na Ffrangeg na Gwaith Gwnio

na chemeg na ffiseg yn yr ysgolion—dim ond Cymraeg. Gwaherddir merched Cymru i briodi estroniaid. Bydd tafarnau ar gau ar hyd yr wythnos a gorfodir pawb i ddewis rhwng mynd i garchar am oes a throi'n Annibynnwr. Disgynna'r safon byw fel carreg a daw Mr. Aneurin Bevan yn nawddsant y mudiad rhyddid. Mewn gair, bydd Cymru'n melltithio'r diwrnod y gadawodd blygion cynnes y ffedog Seisnig.

Parodi ? Efallai. Ond parodi y mae ar y mwyaf ohono wedi ei ddyfynnu air am air o wahanol areithiau a draddodwyd yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Y mae'n enghraifft digon cyffredin o'r lol a arlwyir ar lawer llwyfan gwleidyddol yng Nghymru.

I Blaid Cymru un o'r offerynnau mwyaf gwerthfawr sydd gan genedl i gryfhau ei chyfeillgarwch â chenhedloedd eraill yw rheolaeth dros ei chynyrchion economaidd. Ni all unrhyw genedl yn y byd modern fyw iddi ei hun—ac nid oes yr arwydd leiaf y byddai Cymru'n dymuno gwneud hynny pe gallai. Nid yw Cymru chwaith yn dangos unrhyw awydd i chwalu'r cysylltiadau economaidd rhyngddi a Lloegr. *Nid ceisio hunan-ddigonolrwydd yr ydym ond cyfrifoldeb dros ein perthynas economaitdd â gwledydd eraill*, gan gynnwys Lloegr. Dymunwn reoli'r fasnach rhyngom a Lloegr a gwledydd eraill yn y fath fodd fel y bydd Cymru ar ei mantais. Mewn gair, gofynnwn am gyfiawnder elfennol a'r cyfiawnder hwnnw wedi ei seilio ar gydweithrediad rhwng cenhedloedd sy'n gyfreithiol gydradd â'i gilydd yn lle bod y genedl fawr yn ecsploetio'r genedl fach. Ar hyn o bryd, Lloegr sy'n rheoli a gofala fod pob trefniant yn ffafriol iddi hi. Dadleuwn ni y dylai Cymru gael yr hawl i fargeinio gyda chenhedloedd eraill a gwneud cytundebau boddhaol gyda hwy. Os yw Lloegr yn dymuno cael ein dŵr a'n llefrith, fe'u caiff—yn gymysg neu ar wahan !—ond iddi dalu'r pris cyfiawn amdanynt. Os gall Lloegr ddefnyddio ein glo a'n dur ac os yw'n barod i ddod i delerau derbyniol yn eu cylch, pam yn y byd mawr y dylai Cymru eu hanfon i Tennessee neu Timbuctoo ? Ar y llaw arall os yw'n mynd i dalu'n well i Gymru i'w hanfon i Tennessee neu Timbuctoo, pam yn y byd mawr y dylid ei gorfodi hi i'w hanfon i Loegr ar ei cholled ?

## CYD-WEITHREDIAD

Nid yw ein pryder am gyflwr dynion yng Nghymru yn gorffen gydag ennill rhyddid cenedlaethol i Gymru. Yn ein hathroniaeth wleidyddol ni rhaid i ryddid ledu y tu mewn i fywyd y genedl. Dyna'r rheswm dros ein diddordeb mewn creu bywyd economaidd a chymdeithasol mwy dynol ac urddasol trwy Gymru benbaladr.



**Credwn mai'r drefn economaidd sy'n gweddu orau i'n traddodiad cenedlaethol ac i ofynion y byd modern yw cyd-weithrediad.**

Gwnaeth cyfalafiaeth fwy nag unrhyw elfen unigol arall i ddifetha ein cenedl. Gadawodd bryntni ac ecsploetio'r cyfalafwyr cynnar graith ar ein cydwybod gymdeithasol na allwn yn hawdd ei hanghofio. Aeth gwrthryfel cymdeithasol i waed pawb ohonom. Gorymdeithiodd ein teidiau yn rhengoedd y Siartiaid yn Llanidloes a Chasnewydd ; chwalasant y tollbyrth yn Nyfed a Sir Gaerfyrddin gyda Beca a'i merched ; gwelsant filwyr yn chwalu eu hundebau llafur ; cawsant eu bwrw o'u ffermydd am eu hargyhoeddiadau radicalaidd. Rhwygwyd ein cenedl yn ddwy o'r newydd—y cyfoethog a'r tlawd ; y meistri a'r gweithwyr. I'r cyfalafwyr a'u cynffonwyr nid oedd treftadaeth ddiwylliannol ar y gorau ond ffyrdd rhyfedd gwerinos o fyw ac ar y gwaethaf ond nythle gwrthryfel. Iddynt hwy nid oedd tir ond tir ; peidiodd â bod yn gartref cenedl. Aeth pobl yn ddim namyn "dwylo" i'w cyflogi a'u sacio yn ôl chwiw.

Yna daeth y Blaid Lafur. Beiddiodd freuddwydio am gymdeithas lle byddai'r rhwyg wedi ei gyfannu. Daeth y Cyfle mawr yn 1945. Aethpwyd ati i chwyldroi'r patrwm cymdeithasol a gwella briwiau'r werin. Ond bradychwyd achos sosialaeth Cymru. Yn gyntaf, aeth y mesurau gwladoli diwydiant trwy'r senedd o un i un fel mesurau i Seisnigo Cymru. Mewn dwy ddeddf yn unig y parchwyd undod y genedl Gymreig. Yn y lleill darniwyd Cymru i siwtio hwylustod biwrocratiaid estron. Dangoswyd mewn pum mlynedd na bu'r addewidion i roi senedd i Gymru ond twyll i rwygo'r genedl. Nid oedd yn rhan annatod o'r meddwl sosialaidd Cymreig. Onide, byddai arweinwyr Llafur yng Nghymru wedi gweld eu cyfle i greu rhwydwaith o ddiwydiannau a fyddai mewn ystyr real iawn yn eiddo i'r genedl Gymreig. Byddent erbyn 1951 wedi cerdded yn bell iawn ar hyd y ffordd i roi undod economaidd newydd i Gymru. Ond na! nid oedd y sosialwyr mwy na'r cyfalafwyr o'u blaenau ond gweision bach imperialaeth Seisnig ac ni welodd neb ohonynt eu bod yn anelu ergyd ar ôl ergyd at fywyd ein cenedl.

Nid hynny'n unig. Yr oedd y mesurau gwladoli diwydiant yn siomedig. Nid dileu cyfalafiaeth a wnaethant ond ei dwysau. Ni wnaethpwyd chwarae teg â'r gweithwyr a'u gobaith am fwy o reolaeth tros eu gwaith beunyddiol am fod y mudiad Llafur wedi llyncu Sosialaeth Wladwriaethol y Webbiaid. Tyfoedd y wladwriaeth ganolog yn gyfalafydd mawr, nerthol. Newidiwyd y meistri ; arhosodd y gweithwyr yn "ddwylo."

Trwy fynnu chwalu'r fiwrocratiaeth ganolog, Seisnig hon y mae Plaid Cymru'n cymryd y dorch sosialaidd o ddwylo'r Blaid Lafur yng Nghymru. Mynnwn roi i'r gweithwyr wir urddas pobl sy'n rhoi nid yn unig eu llafur ond eu bywyd i'r diwydiannau lle maent yn gweithio. Nid dwyshau cyfalafiaeth trwy ei chanoli yn y wladwriaeth yw ein hamcan ni—ond ei dileu. Dyna pam y safwn yn gadarn ar gyd-weithrediad rhwng y gweithwyr a'i gilydd fel y sail safadwy i fywyd economaidd Cymru. Ergyd chwerw i urddas y gweithiwr yng Nghymru oedd i'r Bwrdd Glo wrthod caniatad i lowyr Cwmllynfell redeg eu pwll eu hunain yn ôl eu cais. Cyd-weithrediad yw'r ffordd i roi ystyr llawer mwy real i'r dymuniad i droi diwydiannau yn eiddo cyhoeddus. Gyda chyd-weithrediad daw diwydiannau mewn gwirionedd yn eiddo i'r bobl.

## Y WLAD

Fel mewn diwydiant, felly mewn amaethyddiaeth hefyd. Y mae ystadau mawrion yn y wlad yn cyfateb i'r cyfundebau diwydiannol mawrion. Creant werin ddibynnol a thaeogaidd Ein cred ni yw fod yn rhaid i'r ffarmwr fod â rhan fywiol ym mherchenogaeth ei dir os yw i fod yn ŵr o farn annibynnol. Dyna pam y saif Plaid Cymru dros berchentyaeth. Ymladdodd Plaid Cymru achos y ffarmwr bach yn union oherwydd ei chred mai efe wedi'r cwbl yw asgwrn cefn y genedl.

Ni chredwn chwaith fod cefn gwlad farw yn arwydd datblygiad. Peryglus ryfeddol yw'r syniad y dylid diogelu darnau mawr o Gymru heb newid dim arnynt. Agwedd gŵr y dref yw hon ; y syniad fod y wlad wedi ei chreu iddo ef dreulio ei Suliau ynddi. Rhoddwyd y tir i ddyn gan y Creawdwr i gynnal dyn ; eilbeth yw'r difyrrwch a gaiff drwyddo. Bwriadwyd i'r wlad gael ei meithrin a'i datblygu. Peth peryglus yw gwneud delw ohoni.

Ac eto, dylid defnyddio'r wlad yn gyfrifol. Nid maes i'w



ecsploetio ni waeth beth fo'r gost mewn arian a harddwch yw'r wlad. Ymddiriedaeth sanctaidd yw'r tir yr ydym yn byw arno a'r hyn sy'n ei wneud yn sanctaidd yw ei fod yn gartref i bobl—nid ei fod yn gefndir dymunol i drip Ysgol Sul. Gan hynny, rhaid rhoi blaenoriaeth i'n hamaethyddiaeth. Nid atodiad i economeg cenedl yw ei hamaethyddiaeth ond sylfaen pob economi.

## ARWYDDOCAD

Daw arwyddocâd yr egwyddorion y seiliwyd ein hachos arnynt yn amlwg erbyn hyn. Sôn am wleidyddiaeth y buom yn y pamffled hwn. Creu'r amodau y gall y bywyd cenedlaethol ffynnu ynddynt yw gwaith gwleidydd yng Nghymru. A'r allanolion bethau y mae a fynno ef. Ychydig a all wneud y tu hwnt i hynny. Gall lunio sianelau ; ni all orchymyn y dyfroedd byw i lifo drwyddynt. Dibynna hynny ar y genedl ei hun—ar fywiogrwydd a didwylledd ei chrefydd a'i chrefft a'i llenyddiaeth.

Darn hyfryd o'r apocryffa am Bont Menai yw'r stori hon am ddiwrnod agor y bont. Wedi i Telford orffen ei waith yr oedd â dwy dyrfa ar ddau ben y bont grog yn amharod ryfeddol i fentro ei chroesi rhag ofn na byddai'r cadwynau'n dal. Ond ar drawiad amrant rhuthrodd leidr a oedd ar ffo rhag llid ustusiaid Môn trwy'r dyrfa a thros y bont i ddiogelwch Sir Gaernarfon. Ni all gwleidyddion wneud fawr mwy na chodi pont; rhaid wrth y dyhead am ryddid cyn y mentra cenedl drosti. Ond lle bo'r dyhead hwnnw'n gryf, ni waeth pa mor flin na pha mor garpiog yw'r genedl, fe ruthra drosodd a llawenydd. Ac eto, y mae gweld bod pont yn cael ei chodi ynddo'i hun yn foddion i roi ysbryd newydd mewn pobl sy'n dechrau torri eu calonnau a meddwl na chant ryddid byth. Nid yw gwaith Plaid Cymru heb ei effaith, chwaith. Ymddengys y gwaith gwleidyddol yn waith y byddai'n well i ddynion call beidio â baeddu eu dwylo ag ef. Ond y mae eu gweld wrthi eisioes wedi rhoi ysbryd newydd i lawer gweinidog, a llawer nofelydd, a llawer bardd, a llawer athro ysgol.

I newid y darlun. Paratoi'r llwyfan yw gwaith gwleidyddiaeth Gymreig yn awr. Ond rhaid i'r genedl Gymreig ei hun ysgrifennu'r ddrama, a'i llwyfannu, a'i chynhyrchu, a'i hactio.

Trwy ras Duw y mae lle i gredu eisoes na bydd y ddrama honno yn gwbl annheilwng o un o genhedloedd hynaf Ewrob.